PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 7 EBRILL 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Hyde a/ac Weaver |

69 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Javed a Simmons.

70 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Weaver a ddatganodd fuddiant personol fel Aelod Cabinet Cynorthwyol ar gyfer Teithio Llesol, Llyfrgelloedd a Llesiant.

71 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2016 a 17 Mawrth 2016 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

72 : CYNLLUN CYFLENWI CYFARWYDDIAETH DATBLYGU ECONOMAIDD

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty (Cyfarwyddwr - Datblygu Economaidd) i'r cyfarfod. Sylwodd y Cadeirydd fod yr Arweiniad wedi anfon eu ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod.
Darparwyd cyflwyniad i'r aelodau ar Gynllun Cyflawni y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am Linell Welediad, Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth; Dangosyddion Corfforaethol Allweddol; Cyflawniadau 2015/16; Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol; Blaenoriaethau Busnes Eraill a Mesurau Perfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Neil Hanratty am y cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd y aelodau a allent gael gwybodaeth am yr arbedion a chynhyrchu incwm.
  Nid oedd gan y swyddogion y wybodaeth gyda nhw ond gwnaethant gytuno i ddarparu hyn i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod; fodd bynnag, nododd y swyddogion mai'r arbedion mwyaf oedd yr ADM diwylliant a bu gostyngiadau o ran swyddi gweigion, cyfalafu swyddi a rhywfaint o gynydd o ran incwm o leoliadau fel y Castell a hysbysebu digidol. Ychwanegodd swyddogion fod y cyfnod yn herio a bod incwm o eiddo yn cael ei ganoli i ffordd o'r Gyfarwyddiaeth.

- Gofynnodd yr aelodau am y newyddion diweddaraf am Uned Ffilm Caerdydd a dywedwyd wrthynt ei bod yn adennill costau ac erbyn hyn mae'n ymgysylltu â'r Cyngor ac yn darparu gwasanaethau y tu fewn iddo.

- Gofynnodd yr aelodau am y newyddion diweddaraf am y Gyfnewidfa Lo; dywedodd y Swyddogion fod proses fasnachol ar y gweill, roedd y Cyngor yn annog datblygwr i adfer yr adeilad; roedd cynigion ar gyfer gwesty yn yr adeilad, sy'n cadw elfen o fynediad ar gyfer y cyhoedd.
  Sylwyd mai nid y Cyngor oedd yr unig randdeiliad a dywedodd y Swyddogion y byddent yn dod ag adroddiad ar y Gyfnewidfa Lo gerbron y Pwyllgor yn ystod y misoedd i ddod.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y rhaglen Llysgenhadon yn cymryd lle y Cyngor Busnes Caerdydd cynt; dywedodd y Swyddogion fod y rhaglen Llysgenhadon yn gweithio gyda gwestywyr i farchnata Caerdydd ond nid oedd am gymryd lle Cyngor Busnes Caerdydd.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y dyheadau ar gyfer Neuadd y Ddinas gan ddweud fod y Brifysgol y edrych ar ei hystâd, gan ganolbwyntio ar Blas y Parc i ymestyn ei chyfleusterau ar gyfer myfyrwyr.
  Cafodd Meistr Cynllunwyr eu cyflogi i edrych ar y Ganolfan Ddinesig a pha gyfleodd sydd ar gyfer datblygu yn yr ardal. O ran Neuadd y Ddinas yn benodol, roedd yn bwysig ystyried pa ddefnyddiau eraill gallai fod iddi; nid oedd bwriad i dynnu siambr y Cyngor yn ôl, roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r darn siâp pedol ar gefn Neuadd y Ddinas a sut i agor y gerddi yn y cefn; nid ddechreuodd unrhyw waith eto. Nododd yr aelodau yr ôl-groniad cynnal a chadw enfawr yn Neuadd y Ddinas a bod angen edrych ar gynyddu incwm er mwyn ail-fuddsoddi yn yr adeilad.

- Ceisiodd yr Aelodau wybodaeth am beth oedd yn cae ei wneud i annog buddsoddi mewnol yng Nghaerdydd.
  Dywedodd y Swyddogion fod angen iddynt ddarparu targedau ar gyfer y Tîm Datblygu Busnes, gan fod targedau yn cystadlu ar gyfer ystod o gyfleoedd; cafodd y targedau hyn eu hymestyn - bu'n amser hyn ers y bu buddsoddiad sylweddol yng Nghaerdydd

  Ymunodd Peter Bradbury, Aelod y Cabinet dros Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Mentrau Cymdeithasol â’r cyfarfod.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd Prifddinas Diwylliant Ewrop bellach wedi'i dileu o Agenda’r Cyngor; dywedodd yr Aelod Cabinet fod y gymuned Diwylliant â chwant amdani ond bod y Cyngor yn bwriadu chwarae rôl gefnogol; ychwanegodd nad oedd llawer o chwant gan Lywodraeth Cymru amdani ar hyn o bryd yn nhermau bid canolog o Gaerdydd, ac y byddai angen iddo fod ar sail fwy rhanbarthol er mwyn sicrhau cefnogaeth.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y 3 mil o swyddi a gofyn a oedd y rhain yn swyddi newydd neu rai a ddiogelir.
  Dywedodd y Swyddogion fod y swyddi hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau; roedd gan y Cyngor rôl i’w chwarae mewn ystod enfawr o sectorau swyddi, bu’r mwyafrif yn y sector ariannol a chanolfannau galwadau; roedd y ffigwr hwn yn cynnwys ystod o swyddi dros nifer o brosiectau.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar adfywio Bragdy Brains a dywedodd y Swyddogion fod Brains erbyn hyn allan i'r farchnad ac yn gweithio gyda phartner datblygu.
  Deuai a rhagor o fanylion i gyfarfod yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod, rhoi eu cyflwyniadau a'r datganiadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD – Y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.  Gweld Llythyr

## 73 : CYNLLUN CYFLENWI CYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU'R DDINAS

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol), Y Cynghorydd Bob Derbyshire (Aelod Cabinet – Yr Amgylchedd) Malcolm Stammers (Rheolwr Gweithredol Hamdden a Chwarae) a Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol Parciau a Chwaraeon) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol i wneud datganiad a dywedodd ynddo y cafodd llawer o gyflawniadau eu gwneud o dan amgylchiadau anodd iawn a diolchodd y Swyddogion am eu gwaith caled i gyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd i wneud datganiad ac dywedodd ynddo fod hwn yn gyfnod heriol ac y byddent yn parhau felly dros y tair blynedd nesaf; ychwanegodd y byddai'n anodd iawn cynnal a chadw pethau fel Statws y Faner Werdd ar gyfer parciau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y swyddogion i wneud eu cyflwyniad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Fframwaith Polisi; Ystod o wasanaethau a chyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth; adnoddau'r Gyfarwyddiaeth; Cyflawniadau 2015/16; Dyheadau 2016/18; Amcanion y Cynllun Cyflawni (Ymrwymiadau Corfforaethol a Blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth) a monitro ac adolygu Perfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Cyfeiriodd yr aelodau at Hyb Star a gofynnodd ar ba ddyddiad y byddai'r ganolfan hamdden yn cau; dywedodd y Swyddogion y byddai'r symudiad o'r ganolfan hamdden i'r Hyb newydd yn digwydd dros nos ar ddiwedd mis Medi; y bwriad oedd na fyddai unrhyw doriad yn y gwasanaeth.

  Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw newidiadau i'r fanyleb wreiddiol; dywedodd yr Aelod Cabinet fod un neuadd yn llai nag yn y cynllun gwreiddiol ond ceisiwyd darpariaeth yn Ysgol Uwchradd Willows er mwyn derbyn hyn; roedd gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer yr haf a'r gobaith oedd y byddai'r neuadd hon ar agor i gyd-fynd â dechrau tymor mis Medi

- Trafododd yr aelodau arwynebau caeau ac arwynebau 3/4G; Dywedodd y Swyddogion y gallant gael eu defnyddio ar gyfer gemau go iawn; roedd

arwynebau 3G yn cael eu rhoi i mewn i ysgolion ac os yw'r cynghreiriau'n fodlon defnyddio'r arwynebau, gellid gwneud y gorau o ddefnydd y caeau; mae'r caeau wedi'u achredu gan yr UEFA.
Dywedodd y Swyddogion y bu colled incwm sylweddol dros y gaeaf oherwydd tywydd gwael, yn ogystal roedd hyn wedi cael effaith ar gynghreiriau ac roedd y clybiau'n siomedig iawn. Nodwyd hefyd bod angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar y caeau.

- Trafododd yr Aelodau chwaraeon raced a bod defnydd cyrtiau sboncen wedi'i dynnu yn ôl o'r Cynllun Cerdyn Actif; dywedodd y Swyddogion eu buont yn trafod gyda Chlybiau Sboncen ac roeddent yn siarad â nhw o hyd er mwyn datrys problemau cyfredol.
  Ychwanegodd y Swyddogion fod sboncen wedi’i thynnu yn ôl o’r Cynllun Cerdyn Actif oherwydd camddefnyddio cardiau wrth gadw cyrtiau ac archebion sesiynau sboncen yn lleihau ac ychwanegodd bod angen iddynt wneud defnydd gwell o’r lle. Sylwodd y swyddogion, wrth edrych yn ôl, y gallai'r mater fod wedi'i drafod yn wahanol, ac ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod camddefnyddio’r system yn glir ac ni ellid ei oddef.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau Cabinet a’r swyddogion am fynychu’r cyfarfod, rhoi eu cyflwyniadau a'r datganiadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau. View Letter

## 74 : CYNLLUN CYFLENWI CYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU, TAI A GWASANAETH CWSMERIAID

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury (Aelod Cabinet – Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol), Y Cynghorydd Daniel De’Ath (Aelod Cabinet - Sgiliau, Diogelwch, Ymgysylltu a Democratiaeth) a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai Cymunedau a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac Isabelle Bignall (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Cymdeithasol) i’r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Datblygu Cymunedol, Cydweithfeydd a Menter Gymdeithasol i wneud datganiad a dywedodd ynddo fod llawer o bethau da yn mynd ymlaen yn y gyfarwyddiaeth a chafodd lawer o gyflawniadau eu gwneud.

Gwahoddodd yr Aelod Cabinet –Sgiliau, Diogelwch, Ymgysylltu Democratiaeth i wneud datganiad a dywedodd ynddo ei bod yn bleser cyflwyno'r eitem hon - roedd Dysgu Cymunedol i Oedolion (ACL) a Gwasanaethau I Mewn i'r Gwaith wedi gwneud cynnydd cryf ar gyfradd llwyddiant o 87%. Mae’r staff y dyheu am gynyddu cyflawniadau ymhellach; roedd yn bwysig bod y gwasanaeth yn gwrando ar adborth gan ei ddefnyddwyr a'i bartneriaid er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynigir yn gyson â'r farchnad swyddi gyfredol. Roedd Gwasanaethau I Mewn i’r Gwaith bellach yn bwysicach nag erioed o’r blaen wrth i Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan gynnwys gwybodaeth am Linell Weledigaeth; Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth; Dangosyddion Corfforol Allweddol; Meysydd i'r Adran

Craffu eu Hystyried; Cyflawniadau; Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol; Ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni a Dangosyddion Perfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion am y cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Nododd yr Aelodau y byddai llyfrgell Ystum Taf yn cau ar ddiwedd y mis a gwnaethant drafod y trefniadau dros dro ar gyfer y llyfrgell.
  Nododd yr Aelod Cabinet y byddai’r llyfrgell deithiol yn rhan o'r trefniant dros dro a bod swyddogion yn bwriadau lleoli caban dros dro ar ddarn o dir ar gyfer tai. Cadarnhawyd y câi'r Hyb Cymunedol Newydd yn Ystum Taf yn barod erbyn mis Ionawr 2017.

- Nododd yr aelodau fuddion ACL ar draws llawer o gyfarwyddiaethau a chytunodd y dylid rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant ar gyfer gwaith; gofynnodd yr Aelodau a oedd lle i gael arian gan Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer dysgu gydol oes.
  Nododd y Swyddogion bod 4993 wedi ymrestru a bod dim llithriad ar hyn, roedd rhagor o leoliadau yn cael eu hagor; roedd ffocws ar gweithio mewn partneriaeth ar Wasanaethau I Mewn i'r Gwaith (a ariennir gan grant) ond y nod hefyd oedd ar gyfer cyrsiau dysgu gydol oes.

- Trafododd yr Aelodau gyrsiau a'r rhai a oedd yn eu cymryd yn arc deheuol y ddinas; cytunodd y Swyddogion i ddarparu’r map hwn o gyrsiau a lleoliadau i’r Pwyllgor.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd fyddai cynllun Adfywio Llanedeyrn wedi’i gwblhau; dywedodd y Swyddogion yn byddai'n barod erbyn diwedd mis Mawrth – mis Rhagfyr 2016 oedd y dyddiad gwreiddio ond bu llithriad oherwydd tendrau'n dod i mewn yn rhy ddrud.

- O ran Gwasanaethau I Mewn i'r Gwaith, nododd yr Aelodau y bu cynnydd o 80-98% a gwnaethant ofyn i beth gallai hyn gael ei briodoli.
  Esboniodd y swyddogion eu bod wedi teilwra’r gwasanaethau’n fwy i anghenion yr unigolion, wedi ymgymryd â chredyd cynhwysol a gwasanaethau wyneb yn wyneb gan y DWP.

- Gofynnodd yr Aelodau a oes mesuriad ar gyfer y rhaid sy’n dod o hyd i gyflogaeth ar ôl defnyddio Gwasanaethau I Mewn i’r Gwaith; dywedodd y Swyddogion eu bod yn mesur pwy sy’n mynd trwodd i gael cyfweliad gwarantedig, sef 300 y llynedd, ond nid ydynt y mesur a ydynt yn dod o hyd i gyflogaeth wedi hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Aelodau Cabinet, a’r swyddogion am fynychu’r cyfarfod, rhoi eu cyflwyniadau a'r datganiadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at Aelodau’r Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.  View Letter

75 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Economi a Diwylliant ddydd Iau 12 Mai 2016 am 4.30, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.